# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL HYGYRCHEDD GWYBODAETH

### Ystyriodd y Pwyllgor

Ystyriodd y Pwyllgor hygyrchedd dogfennau a gyhoeddwyd i bobl sydd â nam ar eu golwg yn ei gyfarfod ar 2 Gorffennaf 2008. Yr oedd yr eitem wedi'i ddychwelyd i'r Pwyllgor yn dilyn gohebiaeth gyda DeafBlind UK.

Derbyniodd y Pwyllgor bapur a thystiolaeth lafar gan DeafBlind UK a ellir cael mynediad atynt o dudalen y we:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-eoc-home/bus-committees-third-eoc-agendas.htm

Cyn y cyfarfod o'r Pwyllgor, gofynnodd y Cadeirydd i DeafBlind UK edrych pa mor hygyrch yw gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwnaethpwyd y pwyntiau penodol canlynol am wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y drafodaeth yn y pwyllgor gan DeafBlind UK:

·Mae'r wefan yn ateb safonau W3C yn rhannol ond mae lle i wella arni

·Nid yw'r opsiwn hygyrchedd ynrhan o'r prif far gwe-lywio

·Nid oes unrhyw opsiwn am gynllun plaen.

·Nid oes unrhyw opsiynau ar gyfer cael mynediad at wybodaeth trwy fformatau clywedol

·Nid ydym yn gofyn am adborth ar ba mor hygyrch yw'r safle

·Mae gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fwy hygyrch

Pwysleisiodd DeafBlind UK hefyd bwysigrwydd darparu print clir yn hytrach na phrint mawr, a chytuno i anfon at y Pwyllgor fanylion y fformat arall y maent yn cynnig eu deunyddiau eu hunain i'w haelodau

### Argymhellion

Penderfynodd y Pwyllgor gymryd nifer o gamau, yn cynnwys:

Ysgrifennu at Gomisiwn y Cynulliad i dynnu sylw at fannau y gellid eu gwella ar y wefan.

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gofyn am wybodaeth am faint o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â pholisi gwybodaeth hygyrch a beth mae'n ei gynnwys.

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am yr un wybodaeth mewn perthynas â'r awdurdodau iechyd a'r byrddau iechyd lleol yng Nghymru

Gytunwyd hefyd y byddai'r Adroddiad yn cael ei anfon i'r grwp trawsbleidiol mewnol "i-change" sy'n ystyried anghenion technolegol y Cynulliad ar gyfer y dyfodol

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i ddychwelyd at y mater hwn yn ddiweddarach eleni pan fyddai wedi derbyn y wybodaeth ychwanegol uchod ac o bosibl wedi gwneud ymchwiliadau pellach i bolisïau gwybodaeth hygyrch gyda'r sector preifat yn y dyfodol

Ann Jones AC Cadeirydd,
Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
Gorffennaf 2008